# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn
# Pleidleisiau a Thrafodion (225)

## Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Hydref 2006

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

## 2.00pm
### Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.**

..........................

### 3.05pm
### Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

Gwrthododd mwy na 10 Aelod y Datganiad Busnes.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Datganiad Busnes:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 27 | 55 |

**Derbyniwyd y Datganiad Busnes.**

..........................

## 3.16pm
## Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd

..........................

## 4.15pm
## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM3230 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

**NDM3231 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

**..........................**

## 4.18pm
## Eitem 5 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan y Ddeddf Comisiynydd Pobl Hyn i Brif Weinidog Cymru

**NDM3232 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006, ac eithrio'r swyddogaeth o gymeradwyo gweithdrefn gwyno'r Comisiynydd dan adran 20(4) o Ddeddf 2006 a'r rhai na ellir, yn ? gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau r? wyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y c? eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..........................

## 4.32pm
## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006

### NDM3233 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes gofyn i Lywodraeth y DU ymateb yn ffurfiol i sylwadau gan y Comisiynydd ynghylch materion nad ydynt wedi'u datganoli.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 28 | 0 | 52 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn.**

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:

### NDM3233 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Yn gresynu nad oes gofyn i Lywodraeth y DU ymateb yn ffurfiol i sylwadau gan y Comisiynydd ynghylch materion nad ydynt wedi'u datganoli.

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd egwyddor y Gorchymyn.**

**NDM3234 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 yn cael ei wneud yn unol ?146;r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y Gorchymyn.**

**..........................**

## Eitem 7 – Cynnig i gymeradwyo The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 26 – Ni chafodd ei gynnig

## NDM3229 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ?heol Sefydlog 26, yn cydsynio

bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y gorchymyn, The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006.

*Ni fydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

..........................

## 4.40pm
## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**NDM3228 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

To propose that the National Assembly for Wales adopts the draft 2007/8 budget for the Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission, as specified in table 1 of the "*Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission – Budget for the Year Ending 31st March 2008*", laid before the Assembly on 29th September 2006.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu cyllideb ddrafft 2007/8 ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y nodwyd yn nhabl 1 "*Assembly Parliamentary Service and the National Assembly for Wales Commission – Budget for the Year Ending 31st March 2008*" (Saesneg yn unig), a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 29 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 3 | 3 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..........................

## 5.03pm

## Eitem 9 - Dadl ar Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad am y Mesur Morol

**NDM3235 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ?heol Sefydlog 6.6 (v):

Yn nodi adroddiad ar drafodaethau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ynghylch ymgynghoriad Defra ar Fesur Morol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 0 | 35 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.34pm**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 11 Hydref 2006**

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 10 Hydref penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol ?heol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

The Housing (Empty Dwelling Management Orders) (Prescribed Exceptions and Requirements) (Wales) Order 2006

Housing (Management Orders and Empty Dwelling Management Orders) (Supplemental Provisions) (Wales) Regulations 2006

The Selective Licensing of Houses (Additional Conditions) (Wales) Order 2006

The Selective Licensing of Houses (Specified Exemptions) (Wales) Order 2006

The Introductory Tenancies (Review of Decisions to Extend a Trial Period) (Wales) Regulations 2006

The Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (Commencement) (Wales) Order 2006

The Seed Potatoes (Fees) (Wales) (No 2) Regulations 2006

The Seed Potatoes (Wales) Regulations 2006